

## **Alun Harries – Swyddog Datblygu ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Yn wreiddiol o ogledd Sir Benfro, penodwyd Alun yn Swyddog Datblygu Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Ionawr 2021.

Cafodd yrfa hir yng ngwasanaeth yr heddlu a gweithiodd mewn rolau amrywiol ym mhob rhan o Ddyfed a Phowys. Gwasanaethodd hefyd fel Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu ym mhencadlys yr heddlu a Chomander Rhanbarthol Ceredigion. Cafodd Alun ei secondio i'r Swyddfa Gartref yn Llundain am ddwy flynedd fel rheolwr prosiect y Safon Cofnodi Troseddau Cenedlaethol. Graddiodd o'r Brifysgol Agored mewn Cymdeithaseg a Seicoleg a daeth yn hyfforddwr gweithredol achrededig gyda'r Sefydliad Dysgu a Rheolaeth yn 2012.

Yn dilyn ei ymddeoliad o wasanaeth yr heddlu bu Alun yn gweithio fel Pennaeth Gwasanaethau Rhyngwladol i gwmni adeiladu a mwynloddio preifat yng ngorllewin Affrica, gan fod wedi'i leoli yn Sierra Leone am dair blynedd.

Fe'i penodwyd yn glerc y dref yng Nghyngor Tref Caerfyrddin yn 2015, rôl a gyflawnodd am saith mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw cwblhaodd CiLCA ac enillodd y Cyngor sawl gwobr genedlaethol Un Llais Cymru.

Mae Alun a'i wraig yn byw ar gyrion Caerfyrddin ers blynnyddoedd, ac mae ganddynt bedwar o blant sydd wedi tyfu i fyny.